

Parc Gwledig Cwm Dâr

Datganiad Mynediad



Nod y datganiad yma yw rhoi gwybod i ymwelwyr â'r safle am y cyfleusterau ymlaen llaw.

Mae'n galluogi unigolion sydd â gofynion hygrychedd i ddod i benderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r safle'n addas iddyn nhw ai peidio.

Nid ar gyfer y rheiny sy'n defnyddio cadair olwyn yn unig y mae'r datganiad yma. Gall pobl ag unrhyw anabledd/nam ar eu clyw/nam meddyliol neu weledol/pobl hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifainc ei ddefnyddio'n gyngor cyffredinol hefyd.

Mae'r datganiad yn ffeithiol ac yn gywir adeg ei ysgrifennu.

Parc Gwledig Cwm Dâr.

Datganiad Hygrychedd

Oriau agor:

Dydd Llun - 9am - 5pm

Dydd Mawrth - 9am - 5pm

Dydd Mercher - 9am - 5pm

Dydd Iau - 9am - 5pm

Dydd Gwener - 9am - 5pm

Dydd Sadwrn - 9am - 5pm

Dydd Sul - 9am - 5pm

Rhif ffôn: 01685 874672.

Wedi'u cynnwys yn y 500 erw o barc gwledig ym Mharc Gwledig Cwm Dâr mae llwybrau cerdded, heicio a beicio mynydd niferus, yn ogystal â llynnoedd, maes gwersylla a gwesty.

Mae'r gwesty ar gau ar hyn o bryd.

Mae caffi yn y parc hefyd sy'n cynnig bwydydd a diodydd poeth ac oer.

Os ydych chi'n mynd i'r parc mewn car, gofynnwch i'r ganolfan i ymwelwyr am y cod post cywir. Bydd y cod post sy'n ymddangos ar Google yn mynd â chi i rywle arall.

Os ydych chi'n defnyddio offer llywio â lloeren, defnyddiwch y cod post CF44 7PS.

Bydd hwn yn sicrhau eich bod chi'n cyrraedd mynedfa'r parc.

Cyrraedd.



Mae llwybr hir yn arwain i fyny at fynedfa'r parc gyda nifer o dwmpathau cyflymder ar ei hyd.

Parcio.

Mae'r maes parcio'n darparu mannau parcio hygyrch penodedig ar gyfer deiliaid bathodyn glas ac ar gyfer rhieni a phlant. Caiff y rhain eu defnyddio ar sail y cyntaf i'r felin.

Mae modd mynd i mewn i'r buarth o'r maes parcio.



Mae'r maes parcio wedi'i wneud o darnac cadarn ac mae llwybr yn arwain o'r maes
parcio i gatieau haearn gyr. Unwaith i chi fynd drwy'r gât, byddwch chi'n
cyrraedd
y buarth sydd â llawr cerrig llorio.

Mynediad i'r Black Rock Café o'r maes parcio.

Mae'r maes parcio'n arwain at ymylfaen isel. Mae gât metel melyn yn agor tuag atoch chi. Tu hwnt i'r gât, mae ramp wedi'i wneud o friciau math briquette, ac mae hwn yn arwain at ddrws gwydrog sy'n cael ei agor a'i gau â llaw. Mae'r drws yn agor tuag atoch chi. Mae canllawiau naill ochr i'r ramp.

Mae nifer o fyrddau a meinciau yn yr ardal chwarae fechan sydd tu allan i'r caffi.

Caffi Black Rock.



Mae'r caffi wedi'i osod allan yn dda. Mae ardal eistedd lefel uchel ar gael, ac mae modd defnyddio'r lifft grisïau neu'r grisïau i gyrraedd yno. Mae staff ar gael i gynorthwyo.

Mynediad i'r caffi o'r buarth.

Mae drws mawr i'w agor drwy bwyso pad cyffwrdd. Mae'r drws yn llydan

iawn, felly mae'r mynediad yn dda. Unwaith i chi fynd drwy'r drws, byddwch chi'n dod i goridor sy'n arwain yn ei dro at bâr o ddrysau pren. Rhaid agor y rhain â llaw ac maen nhw'n arwain yn syth i mewn i'r caffi.

Tŷ Bach hygyrch

Mae'r tŷ bach hygyrch wedi'i osod allan yn dda ac mae digon o le i symud o gwmpas. Mae yno gortyn i chi ei dynnu mewn argyfwng.

Derbynfa i Ymwelwyr.

Mae modd cyrraedd y dderbynfa ar ramp, ac mae canllaw ar naill ochr y ramp. Mae grisiau wrth ochr y ramp. Mae cerrig fflag ar y grisiau. Mae canllaw ar naill ochr y grisiau, ac fel sy'n ofynnol, mae'r ddau ganllaw'n troi tuag i lawr.

Mynediad i'r Ganolfan i Ymwelwyr

Mae drws unigol gwydrog yn y fynedfa. Caiff y drws yma'i agor yn awtomatig drwy bwyso pad cyffwrdd. Mae'r drws yma'n arwain at gyntedd bach a drws unigol gwydrog arall sy'n agor pan fydd y pad y tu allan yn cael ei gyffwrdd. Mae'r drysau'n agor tuag i mewn, i ffwrdd ohonoch chi.

Desg y Dderbynfa

Mae'r ddesg wedi'i chynllunio fel bod un rhan ohoni'n is, a fel bod cilfan ar gyfer pengliniau i ymwelwyr mewn cadair olwyn. Mae llawr y dderbynfa wedi'i wneud o bren laminad, ac mae'n hollol wastad.

Llety yn y gwesty

Dydy'r gwesty ddim ar agor ar hyn o bryd. Mae'n cynnig llety hygyrch. Mae dwy ystafell ar y llawr waelod ac mae ystafell ymolchi hygyrch gan bob un. Mae lifft ar gael hefyd ar gyfer pobl anabl sy'n gallu cerdded, er mwyn cyrraedd y llawr uchaf.

Mae modd cyrraedd yr ystafelloedd ar ramp sy'n arwain at lwybr cerrig fflag.
Ystafell 15 (Llety hygyrch)

Mae trothwy bychan o flaen y drws pren a agorir â llaw. Unwaith mae'r drws ar agor, mae'r Lled Clir Effeithiol (CEW) yn mesur 772mm.

Y tu mewn i'r ystafell, mae gwely bync, gwely dwbl a bar brecwast. Rhwng y bar brecwast yma a'r gwelyau bync mae CEW o 719mm.

Does dim cortyn i'w dynnu mewn argyfwng yn yr ystafell yma.

Ystafell ymolchi hygyrch

Mae digon o le yn yr ystafell ymolchi ac mae cyferbyniad da rhwng lliwiau'r welydd a lliwiau'r dodrefn. Mae'r ystafell ar ffurf ystafell lyb, ac mae sedd yn y gawod a chortyn i'w dynnu mewn argyfwng. Mae'r cortyn yn cysylltu â'r Ganolfan i Ymwelwyr.

Mynediad i'r parc o'r buarth.

Mae gatiau haearn gyr yn arwain at lwybr ar oleddf.

O'r fan yna, mae dau lwybr ar gael i'ch arwain chi ar grwydr drwy'r parc.

Mae un llwybr yn mynd yr holl ffordd o gwmpas y parc.

Llwybrau i'r Llyn

Mae'r llwybr coch i'r llyn wedi'i wneud o gerrig mân, wedi'u gwasgu'n dynn. Dydy'r llwybr yma ddim yn hollol wastad. Mae pontydd i groesi nentydd bychain fan hyn a fan draw o gwmpas y parc, ac mae deunydd gwrth-lithr ar bob un o slatiau'r pontydd.

Mae'r llwybr 5K wedi'i wneud o siâl mân. Dydy'r llwybr i Aberdâr ddim yn wastad. Mae'r prif lwybr at y llyn wedi'i wneud o darmac, ac mae twmpathau cyflymder ar y dechrau. Mae nifer o feinciau o gwmpas y llyn. Mae'r rhain i gyd wedi'u gosod ar laswellt. Ar hyn o bryd, mae'r holl fyrddau gwybodaeth wedi'u gosod ar ardaloedd gwelltog. Mae nifer o gatiau o gwmpas y parc, gyda chamfeydd sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.



Parc Gwledig Cwm Dâr - Maes Carafanau

Er mwyn cael mynediad at y maes carafanau, rhaid cael cod ar gyfer y clo troi. Mae mynediad ar gael trwy gât mochyn wrth ymyl y gât hefyd, ond mae modd i'r llawr fan hyn fynd yn wlyb.



Cyfleusterau ymolchi ar gyfer ymwelwyr anabl yn y maes carafanau.

Mae ystafelloedd ymolchi newid lle ar y maes, ac mae modd cael mynediad iddyn nhw trwy ddefnyddio cod i ymwelwyr y maes. Mae modd cyrraedd y cyfleuster yma ar ramp, ac mae canllaw ar y ramp.

Gofynnwch yn y dderbynfa neu yng nghaffi Black Rock am y cod i'r ystafell ymolchi newid lle.

Bydd angen i ymwelwyr sy'n dymuno defnyddio'r teclyn codi, ddod â'u sling eu hunain

Ardal chwarae i blant.



Mae modd cyrraedd yr ardal chwarae trwy groesi pont. Mae'r llwybr yma wedi'i wneud o siâl mân a mwd. Fodd bynnag, mae llwybr mwy addas ar gael yn agos i'r bont sydd wedi'i wneud o gerrig wedi'u cywasgu a tharmac. Mae ychydig o oledf wrth i'r llwybr arwain at y parc antur. Mae modd mynd i mewn i'r parc chwarae drwy'r gât gwyrdd sydd i'w weld yn y llun isod.

Llogi beiciau



Mae modd llogi beiciau ar y safle, ac ar hyn o bryd rydyn ni'n ymchwilio i ddarpariaeth bosibl beiciau llaw sy'n hygyrch ar gyfer pobl mewn cadair olwyn.